**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder ac Ymgynghori

SeneddLJC@senedd.wales

28 Mehefin 2023

Annwyl Huw

**Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) 2023**

Hoffwn hysbysu'r Pwyllgor o'm bwriad i gydsynio i Lywodraeth y DU wneud a gosod un Offeryn Statudol (SI): Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) 2023 erbyn 29 Mehefin 2023.

Rwyf wedi derbyn llythyr gan y Gweinidog Gwladol dros Fioddiogelwch, Materion Morol a Gwledig, y Gwir Anrhydeddus yr Arglwydd Benyon, yn gofyn am ganiatâd i'r Rheoliadau hyn. Mae'r Rheoliadau'n croestorri â pholisi datganoledig a byddant yn berthnasol i Gymru. Felly, gallai Gweinidogion Cymru wneud y darpariaethau wrth arfer ein pwerau ein hunain. Bydd y Rheoliadau yn ymestyn i Gymru, Lloegr a'r Alban ac mae cais tebyg am ganiatâd wedi'i anfon at Weinidogion yr Alban.

Mae'r OS hwn yn diwygio Rheoliad (UE) 2019/1021 a ddargedwir gan Senedd Ewrop a'r Cyngor ar Lygryddion Organig Parhaus (ail-lunio) (y "Rheoliad POPs"). Bydd y diwygiad yn ymestyn dyddiad dod i ben rhanddirymiad ar gyfer gweithgynhyrchu, rhoi ar y farchnad a defnyddio asid perfluorooctanoic (PFOA), ei halwynau a chyfansoddion sy'n gysylltiedig â PFOA ar gyfer tecstilau er mwyn eu gwneud yn anhydraidd i olew a dŵr i amddiffyn gweithwyr rhag hylifau peryglus sy'n cynnwys risgiau i'w hiechyd a'u diogelwch. Bydd y dyddiad dod i ben yn cael ei ymestyn o 4 Gorffennaf 2023 i 3 Rhagfyr 2025.

Pwrpas y Rheoliadau yw caniatáu i eithriad penodol gael ei ddefnyddio ar gyfer offer amddiffynnol a ddefnyddir gan bersonél Lluoedd Arfog y DU. Ni fydd yr eithriad yn berthnasol i gynhyrchion neu offer a ddefnyddir gan wneuthurwyr neu ddefnyddwyr nad ydynt yn filwyr. Mae hyn oherwydd bod cyfyngiad ar y defnydd o PFOA at ddibenion anfilwrol wedi'i gynnwys yn Rheoliad REACH y DU.

Mae'r OS hwn yn cael ei wneud o dan erthyglau 2A, 15(1) a 18(1) o'r Rheoliad POPs ac mae'n ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol. Cynigir y dylid

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

gwneud a gosod yr OS gerbron Senedd y DU ar 29 Mehefin 2023, gyda dyddiad cychwyn o 4 Gorffennaf 2023.

Egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru. Ar yr achlysur hwn, ystyrir ei bod yn briodol i sylwedd y diwygiadau fod yn gymwys i Gymru gan nad oes gwahaniaeth polisi rhwng Llywodraeth Cymru a'r DU ar y mater hwn. Mae'r Rheoliad POPs, sy'n cael ei ddiwygio, yn Reoliad ledled Prydain, felly ni ellid gwneud unrhyw ddiwygiadau iddo yn yr iaith Gymraeg.

Mae gwneud y diwygiadau hyn trwy OS diwygio ledled Prydain yn sicrhau llyfr statud cydlynol a chyson, gyda'r rheoliadau ar gael mewn un offeryn. Mae hefyd yn sicrhau na fydd perygl o wahaniaeth yn y ddeddfwriaeth mewn perthynas â defnyddio offer amddiffynnol gan bersonél amddiffyn.  Rwy'n credu nad deddfu ar wahân i Gymru fyddai'r ffordd fwyaf priodol o weithredu newidiadau angenrheidiol nac yn ddefnydd doeth o adnoddau Llywodraeth Cymru o ystyried blaenoriaethau pwysig eraill.

Yn gywir



**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**